

Papur Pawb

Pris: 50c

Ionawr 2010

Rhif 355

BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DDARLLENWYR PAPUR PAWB

tud 3

Pobl a Phethe

tud 4

Cylch Meithrin Tal-y-bont

tud 10 - 11

Teyrngedau

tud 12

Chwaraeon

DATHLIADAU'R NADOLIG



Gwasanaeth Nadolig Ysgol Llangynfelyn



Aelodau Ysgol Sul Bethel, Tal-y-bont yn canu Calennig



Sêr y Cylch Meithrin yn disgleirio cyn y Nadolig



Teithwyr Ysgol Gymunedol Tal-y-bont ar y ffordd i Fethlehem



Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Bethel

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309

Gwneir pob math o waith

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans (01970) 832473 Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon
Tynnu lluniau: Telpyddes:	
Bont-goch: Parsel Henllys: Eglwysfach: Tallesin: Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566 Dilys Morgan, Alltgoch 832498 Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312 Mai Leeding, Glannant, Taliesin 832672 Aileen Williams, Maesmeillion 832438 Kathleen Richards, Y Bryn 832201 Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl 832429 Janet Evans, Cefngweiriog (01654) 781260 Eirlys Jones, 91 Maes y Deri 832483
Tre'r Ddôl:	
Maes y Deri:	
Cadelrydd: Is-gadelrydd: Ysgrifennydd: Trysorydd: Aelodaeth: Hysbysebion: Plygu: Dosbarthwyr:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448 Geraint Pugh, Dôl Pistyll 832433 Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont 832384 Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont 832560 Aileen Williams, Maesmeillion 832438 Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312 Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eirlys Jones (Tanysgrifiadau)

Cyhoeddi'r gan Gynddelthas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llety'r Bugail
Tal-y-bont

Annwyl Olygydd,
Wn i ddim faint o ddarlennwyr Papur Pawb sy'n sylweddoli fod Mrs. Falyri Jenkins wedi bod yn byw yma ers dros ddeg mlynedd ar hugain bellach, ac wedi bod yng ngofal yr Ysgol Sul ers y dechrau. Dyma enghraifft dda o lawer un sydd yn byw yn y pentref sydd wedi cael addysg dda, ac yn barod i ddefnyddio'i addysg er lles y gymuned. Carwn i, ar ran aelodau Bethel, ac ar ran pawb yn y pentref, o ran hynny, ddiolch o galon i Falyri am y gwaith da mae hi wedi gwneud ac yn dal i wneud.

Pan oeddwn i yn blentyn, yr unig bwr oedd gan fy nhad i amaethu oedd y ceffyl gwaith, a'r anifail mwyaf gwerthfawr ar y fferm oedd y ceffyl neu'r gaseg siafft. Ni wnai pob un y tro, rhaid ei bod wedi profi ei hun ei bod yn hollol ddibynadwy, dim castiau o gwbl yn perthyn

iddi a bob amser yn barod i waith. 'Rwy'n gweld beth mae Falyri yn cyfrannu i'r gymuned heddiw, yn debyg iawn i beth wnaeth yr anifail gwerthfawr yma i amaethyddiaeth ar hyd y canrifoedd. Daliwch ati. Efallai fod peth diolch yn ddyledus i Gwyn hefyd, wedi'r cyfan, fe gafodd afael ynddi yn y dechrau a fe ddaeth â hi i fyw i Dal-y-bont. Meddylwch am y golled fyddem ni wedi cael petai nhw wedi mynd i'r dre i fyw.

Gwilym Jenkins

Byw yn yr Ardd 2010

Mi fydd y drydedd gyfres o 'Byw yn yr Ardd' yn ôl ar y sgrin ar S4C yn gynnar yn Ngwanwyn 2010 yng nghwmni Russell Jones, Bethan Gwanas a Sioned Rowlands.

Ydych chi'n adnabod unrhyw arddwyr diddorol neu wedi dod ar draws unrhyw erddi prydferth neu gwahanol? Oes gyda chi stori sydd a chysylltiad garddwriaethol i'w rhannu gyda ni? Mae croeso i chi gysylltu gyda 'Byw yn yr Ardd' ar 01248 671167 neu trwy'r e-bost ar post@bywynyrrardd.net

Edrychwn ymlaen i glywed oddi wrthyhych - diolch yn fawr am eich cymorth.

Cofion cynnes oddi wrth
Tim 'Byw yn yr Ardd'

Dyddiadur

IONAWR

7.30 Neuadd Llwynecelyn

10 Bethel 12 Gweinidog
Nasareth 10 T J Irfon Evans
Rehoboth 10 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber a Chymun
12 C. Ff. I. Talybont Cefn Mabws
13 Neuadd Goffa Tal-y-bont 8.00 Pwyllgor Rheoli
14 Clwb Llyfrau 2.30 Gwaelod y Neuadd
17 Bethel 10 Delyth Morgans
Rehoboth 2 Elwyn Pryse
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
Eglwys St Pedr Bontgoch 2.30 Cymun Bendigaid

18 Merched y Wawr,

Tal-y-bont
Lloyd Edwards,
Penrhyn-coch

19 C.Ff.I. Talybont
Noson Bingo 8.00
Neuadd Goffa

20 Bugail Ola' Ucheldir
Pumlumon Rhan 1 – o
Gwm Symlog i Hengwm
Anedd. Neuadd Goffa
Talybont 7.30.

21 Sefydliad y Merched Talybont
2.00 Ann Ovens – Gwenyn

22 C.Ff.I. Talybont Cyn Aelodau
Rhowch Gynnig Arni 7.30
Tregaron

24 Bethel 5 Terry Edwards
Nasareth 5 Bugail
Rehoboth 10 Richard H. Lewis
Eglwys Dewi Sant 9.30 Boreol
Weddi

26 C.Ff.I. Talybont
Cyfarfod ac Ymarferion
Drama

29 C.Ff.I. Talybont Cinio
Blynyddol

31 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth 10 Glyn Morgan
Rehoboth 10 Steffan Jones
Eglwys Dewi Sant Undebol
Eglwys St Pedr Bontgoch 2.30
Cyfarfod Unedig Eglwys
Dewi Sant
Capel Bangor

CHWEFROR

- 1 Pwyllgor Sioe Talybont a Gogledd Ceredigion**
- 2 C.Ff.I. Talybont** Ymarferion
Drama
- 3 Bugail Ola' Ucheldir**
Pumlumon Rhan 2 – o
Gapel Tabor i Gwm Ceulan.
- 5 Cyfarfod Mabwysiadu Penri**
James

7 Bethel 10 Trefn Lleol
Nasareth 10 Bugail
Rehoboth 2 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30 Cymun
Bendigaid
Eglwys St Pedr Bontgoch 2.30
Hwyl Weddi
9 C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch
Ymarferion Drama
10 Neuadd Goffa Tal-y-bont
8.00 Cyfarfod Blynyddol
14 Bethel 2 Gweinidog
Nasareth 5 Terry Edwrads
Rehoboth 2 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber
a Chymun

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Profesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Phil a Megan. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Bleddyn a Delyth (01970 832448; huws.henllan@btinternet.com). Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn 5 Chwefror a bydd y Papur ar werth ar 12 Chwefror.

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



Cartref Newydd

Dymuniadau gorau i Ceri Jones sydd wedi symud o Fachynlleth i 'Islwyn' hen gartref ei mamgu - sydd bellach wedi ei ail enwi yn Tŷ Ceri. Mae Ceri yn ferch i Jane, chwaer Ann Humphreys ac yn gweithio gyda "Tir Gofal" yng Ngogerddan.

Cyfarfod y Chwiorydd, Rehoboth.

Ail gychwynnwyd y Gymdeithas ar brynhawn Mawrth, Hydref 14eg. Croesawodd ein llywydd y nifer dda o aelodau gan gyfeirio at anhwylder Mrs A Watkin, Miss A Rees a Mrs E Williams, a dymuno adferiad buan iddynt. Cawsom orig ddfyr yng nghwmni Mrs Edna Griffiths o'r Brithdir, cymeriad hwyliog ac yn llawn egni. Mae'n rhedeg busnes o'i chegin gartref o dan yr enw "Bonedau Brithdir" ac yn gweithio i ofynion ei chwsmer. Mae wedi ymddangos ar raglen deledu Cwpwrdd Dillad a'r Sioe Gelf a hefyd yn mynd dramor i arddangos ei chrefftau ac yn ei gwerthu mewn siopau arbennig. Edmygwyr ei chynnyrch yn cynnwys hetiau, siol, siaced ac addurn gwddf i gyd allan o ddeunydd naturiol, o wlan, ffelt, priciau pren cyll a chyrten net, wedi ei liwio'n effeithiol gan ddaill te. Diolch i Eirlys am brynhawn pleserus, dechreuad ardderchog i'r tymor.

Ysbyty

Dymunwn adferiad iechyd i Mr a Mrs Idris Jones, Llys Ynyr, y ddau ar hyn o bryd yn yr ysbyty, un ym Machynlleth a'r llall ym Mronglais.

Eglwys St.Pedr, Elerch

Cyfarfod Carolau

Cynhaliwyd y gwasanaeth carolau blynyddol ar 9 Rhagfyr, a daeth cynulleidfadau dda o dros 40 ynghyd. Diolch i aelodau Parti Penrhyn am eu cyfraniadau plygeiniol a gyfoethogodd y gwasanaeth yn sylweddol. Eleni enwebwyd

Pobl a Phethe

elusen Canolfan Rhoserchan i dderbyn cyfraniadau'r casgliad ac roedd hi'n dda gweld nifer sylweddol o'r staff a'r clientau yn bresennol yn y gwasanaeth ac yn amlwg yn mwynhau'r achlysur. Casglwyd £91 tuag at y Ganolfan a throsglwyddwyd yr arian i Roserchan er mwyn hyrwyddo'r gwaith da y maent yn ei gyflawni.

Gwasanaeth Bore Nadolig
Cynhaliwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 8.00 o'r gloch ar fore Nadolig dan ofal y Ficer, Y Parchg John Livingstone gyda chymorth Mrs Lona Jones. Er fod y tywydd yn oer a'r ffyrdd yn gas roedd hi'n dda gweld dros ugain o bentrefwyr yn bresennol.

Priodas

Dymunwn yn dda i Huw a Margaret Davies, Llety Ifan hen, Bont-goch yn dilyn eu priodas ar Ddydd Sadwrn 19 Rhagfyr.

Croeso

Croeso i'r Prifardd Hywel Griffiths ac Alaw Lewis sydd wedi ymgartrefu yn Y Garth, Tal-y-bont.

Croeso hefyd i Arthur Dafis a Rebecca Williams a phob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd, Mur Mawr, Tal-y-bont.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Gill Saunders Jones, Fagwyr, ar gollu ei mam ym mis Rhagfyr, hefyd â'r teulu a'r tri mab ar gollu mamgu.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar Lois Winifred Watkins, yr olaf o chwiorydd Tŷ Hen a fu farw yng nghartref Min-y-Môr, Aberaeron, ar 7 Rhagfyr.

Marwolaeth

Bu farw Trevor Davies, ("Trev"), Bwythyn Rhosyn, Glandyfi ar 28/11/09 yn Y Rhallt, Y Trallwng. Mae rhan mwyaf o bobl yn cofio Trev yn rhedeg Y Llew Du, Derwenlas am flynyddoedd. Boi o Lanfair Caereinion yn wreiddiol oedd e ond bu'n byw yn yr ardal am 50 o flynyddoedd. Roedd e wastad yn fodlon i helpu ac roedd e'n arbennig o dda gyda ei ddwylo. Roedd yr amlosgiad yn Clarach ar 4/12/09. Fe roddwyd teyrnged iddo gan Robert South. Cyflwynwyd y casgliad er cof amdano i Ambiwlans Awyr Cymru.

Sefydliad y Merched, Eglwysfach

Fe gafodd pawb noson dda iawn ar 8fed Rhagfyr o dan arweinyddiaeth Vic Bamford a Judith Pearson. Nhw oedd wedi trefnu yr adloniant a gemau ar y noson. Cyfarfod parti i ddathlu Nadolig. Edrychodd y stafell yn fendigedig hefyd. Diolch yn fawr i chi'ch dwy. Diolch yn fawr iawn hefyd i Chris a' i staff yn *Y Wildfowler*. Aeth yr aelodau yno i gael cinio 'Dolig ar 11fed o Ragfyr. Roedd y bwyd a'r gwasanaeth o'r dosbarth cyntaf. Rydyn ni'n edrych ymlaen i flywyddyn nesaf ac wedi archebu yn barod

Diolch

Dymuna Rhydian Evans, Tynant, Tal-y-bont a Eifiona Davies, Penlan, Treflan ddiolch o galon i pawb am y cardiau a'r rhoddion a dderbynion ar achlysur ei dyweddiad yn ddiweddar.

Hanes Gwyndaf

Mae portread byr o Gwyndaf Evans, 94, Maes-y-deri, Tal-y-bont yn adrodd ei helyntion yn ystod ei gyfnod yn y llynges i'w weld yn llyfr Terry Davies *Borth - a Maritime History* a gyhoeddwyd ym mis Hydref eleni gan Llygad Gwalch, Llanrwst. Ceir yn y gyfrol hon straeon am deithiau, trychinebau a gorchestion, ac achau teuluoedd morwrol Borth, gan gynnwys hanes Gwyndaf.

Cyfarchion Amaethyddol Tymhorol

Ar raglen Eleri & Daf ar Radio Cymru bore Dydd Calan, cyflwynodd Dafydd Mason, Craig Fach, Bont-goch ei ddymuniadau blwyddyn newydd dda i bawb oedd yn gwrandao ar y rhaglen mewn tractor tra'n bwydo'r anifeiliaid.

Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach

Mi oedd 2 cyngerdd yn yr eglwys cyn y Nadolig sef Cantorion Dyfi a Cor y Gors, Y Borth. Fe fwynheuoedd pawb yr amrywiaeth o gerddoriaeth. Diolch iddyn nhw am rhoi eu amser i'n diddanu.

Cymdeithas Sioe
Tal-y-bont

YN EISIAU

Ysgrifennydd/
Ysgrifenyddes
Gyffredinol
erbyn Mis Mawrth 2010
Enwau i'r Cadeirydd
Ifan Jenkins
01970 832342

Cylch Meithrin Tal-y-bont



Dau riant o'r Cylch Meithrin, Catrin Mai a Paul James, a'u plant wrth y stondin gacennau yn noson goffi'r Cylch cyn y Nadolig.

Ar nos Lun y 14eg o Ragfyr, cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig Cylch Meithrin Tal-y-bont yn y Neuadd Goffa. Braf oedd cael ymgynull i fwynhau Stori'r Geni ynghwmni'r plant ifanc, a bu'r deuddeg ohonynt yn diddanu'r gynulleidfa trwy ganu casgliad o ganeuon Nadolig ar lwyfan y neuadd, o dan ofal arweinwyr gweithgar y Cylch, Shân, Anwen ac Ellyw. Cafwyd cyfle hefyd i fwynhau mins pei a phaned ac i wneud ychydig o siopa Nadolig, ac aeth sawl un lwcus adre ag un o wobrau y raffl fawreddog!

Dymuna pwyllgor a staff y Cylch Meithrin ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth parod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac edrychwn ymlaen at flwyddyn hwyliog a llwyrchus arall. Pob hwyl i'r plant sydd wedi gadael y Cylch erbyn hyn ac wedi ymuno a'r ysgolion cynradd, a chroeso mawr i'r criw bach newydd sydd wedi ymuno â ni yn y Cylch.

Criw 'Os Mêts' yn gosod cywair i'r Nadolig



Nos Fercher Rhagfyr 16 bu i nifer o aelodau 'Os Mêts' a'u cyfeillion yn canu carolau dan arweiniad y Fns Falyri Jenkins yng nghwmni trigolion Afallen Deg, Bow Street. Cyflwynwyd y carolau a'r eitemau gan y Parch John Livingstone, Cadeirydd Pwyllgor 'Os Mêts'. Cafwyd hefyd unawdau gani Geraint Howard i gyfeiliant y Fns Falyri Jenkins a chafwyd eitemau ychwanegol gan grŵp offerynnau pres - Iestyn Evans, Gwern Penri a Dafydd Rees. Buont hefyd yn cyfeilio i nifer o'r carolau. Diolchwyd i griw 'Os Mêts' am eu cyfraniad ac am y mwynhad a gafwyd gan y Fns Carolyn Smith, Warden Afallen Deg. Mwynhawyd sgwrs a mins peis gyda'r trigolion cyn troi am adref.

Gyrfa Chwist y Sioe

Ar nos Fercher 16fed o Ragfyr, cynhaliwyd ein gyrfa chwist flynyddol. Bu'n chwist lwyddiannus gyda dau ddeg chwech o fyrdau, ac yn cadw trefn ar y cyfan oedd Glyn Davies yr M.C.

Daeth y cyfle am banded wedi ei baratoi gan y gwragedd hanner amser, a braf oedd cael sgwrs a phrynu tocyn raffl gan Marion ac Ann. Ail ddechreuwyd ar y chwarae a buddugwyd y noson oedd:

Sgôr Uchaf: Gŵydd Gaynor Breese

Twrci: J Middleton; Peter Howes

Cyw iâr: Janet Evans; Dilwyn Evans

Cyw iâr: Janet Pugh; John Edwards

Potel o sieri: R J Jenkins; Cari Daniels

Pwdin Nadolig: B Lloyd; Anwen Davies; Eleanor Jones; Mrs Howes

Bwrw Allan: Hwyaden; Llyr James; Islwyn Davies

'Miniature' Isaf: Llyr James; Parry

Dyn/Dynes yn eistedd hiraf: Myfanwy James; Tom Jones

Plentyn 16 oed ac iau: R J Jenkins; D. Pugh

Methodd ein llywyddion fod yn bresennol a thynwyd gwobrau y ddwy raffl gan aelodau'r pwyllgor. Y prif enillwyr oedd:

£60: Dewi Jenkins, Tynygraig

£40: Jenny D/O Anthony Motors

£30: Dei Nutting, Ty Hen Henllys

£20: P. Benjamin, Penparcau

£20: Menna Morgan, Dôl Pistyll

£10: Brian Richards, Llyfrgell Genedlaethol

£10: Ann Jenkins, Penrhyn-coch


£10: Elin Morgan, Pengain

£10: Huw Jones, Machynlleth

£10: Heulwen Astley, Siop Spar

Enillwyd llawer o wobrau'r raffl fach gan bobl lleol. Cyn troi am adref, diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei cyfraniad a'u cefnogaeth i'r noson.

Janet Jones



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Os am dacs neu fws mini

CAMBRIAN
CABS

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

Ysgol Gynradd Llangynfelyn

Gwasanaeth Nadolig

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig traddodiadol yng Nghapel Rehoboth yn ystod mis Rhagfyr. Diolch i bawb a wnaeth gefnogi a diolch arbennig i'r Parch Roger Thomas am annerch y plant. Mi oedd yn bleser cael defnyddio'r capel o fewn ein cymuned fach. Braff oedd cael cymysgu a sgwrsio efo cyfeillion yr ysgol wedi'r Gwasanaeth yn y festri – diolch i'r PTA am drefnu'r te a'r coffi ac am addurno'r lle mor hardd.

Gweld Siôn Corn

Aeth y Cyfnod Sylfaen i Bentre Bach i weld Siôn Corn. Cafwyd amser bendigedig yn sgwrsio â'r hen wr. Cafwyd cinio ym Mhentre Bach a gwelwyd cymeriadau o'r gyfres deledu. Diolch i Siôn Corn a Bili Bom-Bom am diddanu'r plant bach.

Sinema

Ymwelodd yr holl ysgol â'r sinema yn Aberystwyth yn ddiweddar Mae hwn yn drip flynyddol yn ystod cyfnod y Nadolig. Cafwyd llawer o hwyl yn gwyllo "Monsters

v's Aliens." Diolch i'r Commodore yn Aberystwyth am y gwahoddiad eto eleni.

Parti Nadolig a Chinio Nadolig

Diolch o galon i Mrs Lisa Byrne am drefnu a choginio bwyd hynod o flasus ar gyfer ein parti a chinio Nadolig. Braff oedd cael dathlu'r wwl eto yng nghwmni'r plant a'r staff.

Gwyl Ffilmiau

Ar ddiwedd y tymor, pleser oedd cael gwahodd rhieni'r ysgol i fewn i cael gweld gwaith y plant hynaf yn yr ysgol. Bu'r plant wrthi yn brysur am wythnosau yn ysgrifennu sgript, yn creu cymeriadau o glai a golygfeydd. Gwariwyd amser yn ffilmio ac yna yn torri'r ffilmau ar gyfrifiadur. Cafwyd bore hynod llwyddiannus yn dangos y dair ffilm ("Y Cadno Coch," "Henri Helynt" a "Y Llwynog yn y Goedwig") i'r rhieni ac i weddill yr ysgol. Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus iawn ac edrychwn ymlaen at greu ffilmau eraill yn y dyfodol.



Plant Ysgol Llangynfelyn ar ymweliad â Phentrebach




Seamus Byrne a Ben Phillips

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol o fewn y gymuned. Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at y Clerc, Gwilym Huws, Pengwern, Tal-y-bont, Ceredigion, SY24 5EN, erbyn dydd Gwener 29 Ionawr 2010 fan bellaf.

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimonwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

 <p>CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE</p>	<p>Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT</p>	 <p>TEIARS HUW LEWIS TYRES</p>
---	---	---

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM



Ffôn 01970 636774

Bugail Ola' Ucheldir Pumlumon

Flwyddyn yn ôl bu farw'r diweddar Edgar Humphreys, Penlôn, Tal-y-bont, Ceredigion, yn 99 mlwydd oed, ef oedd yr olaf o'r rhai brofodd fyw a gweithio yn yr ardal anghysbell honno lle saif cronfa Nant-y-moch heddiw. Bu ucheldir Pumlumon a'r cyffiniau yn agos iawn at ei galon drwy gydol ei oes, a thra gallai parhaodd ei ddiddordeb mewn arferion cefn gwlad megis hela a physgota. Wrth lwc, fe'i bendithiwyd â chof eithriadol am y blynyddoedd cynnar a chaled hynny yn yr unigeddau llwm.

Yn ffodus, roedd Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont yn ddigon hirben i sylweddoli mor amhrisiadwy oedd yr atgofion hyn a bod angen i rywun eu cofnodi cyn iddi fynd yn rhy ddiweddar. Felly, yn nechrau'r 1990au aeth Gwilym Jenkins ati, gyda'i gamera fideo, i holi Edgar Humphreys am ei filltir sgwar a'i fywyd lliwgar. O ganlyniad, lluniwyd fideo ddogfen werthfawr iawn o ffordd

o fyw sydd bellach wedi diflannu'n llwyr o'r tir, ac hefyd o gymeriad rhadlon a ffraeth a ddechreuodd ei yrfa fel bugail mynydd ond a fu'n gweithio wedi hynny fel coedwigwr, chwarelwr ac adeiladwr.

Yn awr, ddeunaw mlynedd yn ddiweddarach, daw cyfle prin i weld y portread gwerthfawr hwn fel rhan o'r gweithgareddau i godi arian tuag at Gronfa Sioe'r Cardis 2010. Trefnir dwy noson, er mwyn rhoi cyfle i weld y fideo yn ei chyfanrwydd. Yn rhan 1, a ddangosir rhwng 7.30 a 9 o'r gloch nos Fercher 20 Ionawr yn Neuadd Goffa Tal-y-bont, fe ddilynwn ôl-traed Edgar Humphreys o fan ei eni yng nghyffiniau Cwm Symlog i Fwlchstyllen, Llechwedd-mawr a Hengwm Anedd. Yn rhan 2, a ddangosir am 7.30 nos Fercher 3 Chwefror, cychwynnir ger Capel Tabor, ar bwys cronfa Nant-y-moch, cyn symud ymlaen i Lyn Plas-y-mynydd, Llyn Pen-rhaedr, Cwm Einion, Cwm Tynant a Chwm Ceulan.

Am ragor o wybodaeth, gallwch gysylltu â Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont (01970 832751 neu annjenkins1@btinternet.com). Pris mynediad i weld y fideo fydd lleiafswm o £3 y noson.

CYNGOR CYMUNED LLANGYNFELYN

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangynfelyn a gynhaliwyd ar nos Lun, 9 Tachwedd 2009.

Cychwynnwyd y cyfarfod gydag adroddiad diddorol am y datblygiadau diweddaraf ynglŷn â'r fferm wynt gan Eluned Lewis, Airtricity.

Datganwyd boddhad fod y gwasanaethau bws a ddilewyd wedi eu hail osod ar yr amserlen am chwe mis a bod y sefyllfa'n cael ei hadolygu. Roedd hyn yn achosi pryder i lawer o bobl yr ardal sy'n defnyddio'r bysiau.

Trafodwyd y cais am hysbysfwrdd wrth y sedd ger y fynedfa i Graig-y-Penrhyn gan y byddai yn galluogi'r trigolion hynny nad ydynt yn gweld yr hysbysfyrddau eraill i wybod beth sy'n digwydd.

Penderfynwyd gofyn am bris, a gofyn am ganiatâd gan y Cyngor Sir.

Cwynodd trigolion hŷn Taliesin am y palmant anwastad yn y pentref. Penderfynwyd gofyn eto i'r awdurdodau priodol ynglŷn â'r mater yma, yn ogystal â materion eraill hefyd, megis y llinellau melyn dwbl yn Nhaliesin, y cyfyngiad cyflymder newydd ar y ffordd yn Nhre'r-ddôl a Thalesin, biniau bwyd a bagiau ailgylchu, a lledu'r ffordd yng Nglandyfi.

Darparwyd gwybodaeth am ffliw'r moch gan Un Llais Cymru.

Penderfynwyd gosod coeden Nadolig gymunedol yn Nhre'r-ddôl eleni eto.

Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y gymuned.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

CEFNOGWCH GYMRO LLEOL

H. LLOYD WILLIAMS

CYNNAL A CHADW GERDDI
TORRI PORFA A SIETYN,
GOSOD DECKING A SLABIAU

DOES DIM YN ORMOD O WAITH!

32 Bryncastell Ffôn: 01970 820699
Bow Street Symudol: 07966 105519

C.Ff.I. Tal-y-bont

Cynhaliwyd Goreuon y 'Steddfod yn Neuadd Capel Bangor yng nghwmni Clybiau Trisant, Llanddeiniol a Llangwryfon ar nos Wener Iwcus y 13eg o Dachwedd. Braf oedd gweld llond neuadd o gynulleidfa a llwyddwyd codi dros £500 o elw tuag at apêl Sioe'r Cardis 2010.

Daeth cyfle i gael ceisio am daith tramor lan yn Llanelwedd ar ddydd Sul y pymthegfed, ag er bod dim llais 'da fi, llwyddais i berswadio'r panel i'm danfon i Ganada gyda Tracy Evans o Glwb Pontsiân fis Tachwedd 2010. Byddai'n siwr o ddanfon cerdyn post i *Papur Pawb!*

Cafwyd ymweliad â Hywel y Fet ar yr 17eg o Dachwedd cyn i gynrychiolwyr o Geredigion a'u cefnogwyr fynd i Eisteddfod Cymru yn Llandudno. Ail i Elen Steddfa ar yr Unawd dan 16 a hefyd i Aled Llŷr a Geraint Cerrigaranau efo'i Stori a Sain. Trydydd gafodd y Sgets, a gwych oedd cael gweld pigion o'r 'Steddfod ar S4C dros adeg y Nadolig.

Ar ddiwedd fis Tachwedd, 'roedd hi'n bryd cymryd rhan yng Nghwis y Sir gyda diolch mawr i Eiry a Menna o Glwb Trisant am ddod atom ni. Bydd y canlyniadau ym mhwyllgorau'r Sir fis Ionawr.

Cystadlaethau fuodd yn y Ffair Aeaf ddechrau Rhagfyr o Farnu Biff i Addurno Coeden. Dyfarnwyd bod coeden Morfudd a fi (efo Dai Jones fel y "dylwyth teg" ar y top) yn haeddu 3ydd tra bod Geraint yn cael 4ydd yn barnu a'i gyfranniad e'n cael trydydd fel tîm. Daeth Ceredigion yn ail ar ddiwedd yr holl gystadlaethau.

Cyn mynd mas i Ganu Carolau, penderfynwyd cael parti Nadolig ar yr 8fed yn y Llew Gwyn. Yna daeth hi'n amser i ddewis ein helusennau am eleni, sef Ambiwllans Awyr, Ffagl Gobaith a Cyfeillion Bronglais. Dros ddwy noson,

llwyddwyd i godi £2,446 drwy haelioni pawb yn ardal Talybont, a bu rhai yn swyno ar Radio Cymru hefyd!

Peidiwch meddwl bod amser gyda ni i segura, nag i chi ein cefnogwyr! Byddwn yn cynnal noson Bingo ar y 19eg yn Neuadd Goffa Talybont, a chynhelir ein Cinio Blynnyddol yng ngwesty'r Marine ar y 29ain. Os oes diddordeb ddod i'r cinio, bydd Eifion Cerrigaranau'n cymryd enwau. Ac wedi llwyddiant noson i gynaelodau llynedd, bydd noson arall o Rhowch Gynnig Arni yn Nhregaron ar yr 22ain! Felly digon i'n diddanu i gyd!

E.J.

(Llongyfarchiadau Eleri ar ennill y daith y Ganada... edrychwn ymlaen at y cerdyn post. Gol.)

Yn sicr, yr uchafbwynt yng nghalendr o ddigwyddiadau Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch yw'r gwasanaeth Nadolig cymunedol, blynnyddol .Eleni, fe'i cynhaliwyd ar Nos Sul, Rhagfyr 20 yng nghapel Bethel. Yr hyn sy'n sicrhau ei lwyddiant yw'r cyd-weithio parod yn y gymdeithas ynghyd a'r eitemau cerddorol a llafar amrywiol gan gynrychiolwyr nifer o sefydliadau, pwyllgorau a chymdeithasau.

Diolch i unigolion a chynrychiolwyr capeli Bethel, Nazareth a Rehoboth, y Clwb Ieuenctid, y Ffermwyr Ieuainc, Rhieni a disgyblion Ysgol Tal-y-bont, pwyllgor y Sioe (a edrychai'n hynod o smart yn eu coch!) a'r Neuadd Goffa, Papur Pawb a

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com



yloffa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com

MERCHED Y WAWR




Janet Armstrong, Toko, Aberystwyth yn cyflwyno arddangosfa o addurniadau Nadolig i Ferched y Wawr Tal-y-bont.

Merched y Wawr. Diolch i Eleri Huws yr organyddes ac i'r Parch Richard Lewis am eu gwasanaeth. Derbyniwyd casgliad o £155 tuag at apel 'Y Tyst'i gael copi 'Braille'o'r Beibl Cymraeg.

(Roedd hi'n hyfryd clywed Carol Nadolig newydd yn cael ei chyflwyno'n gyhoeddus am y tro cyntaf yn ystod gwasanaeth Nadolig. Eleri Huws oedd yn gyfrifol am gyfansoddi'r alaw gan ddefnyddio geiriau Phil Davies. Gol.)

Eglwys Dewi Sant

Mae Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont newydd gyhoeddi llyfryn dwyieithog gan David H. Williams, Y Borth ar hanes yr Eglwys ar achlysur dathlu 100 mlynedd ers agor yr Eglwys bresennol ym mis Tachwedd 1909. Cyhoeddwyd y gyfrol gyda chymorth Cronfa Eleri – Amgen a Chyngor Ceulanamaesmawr, ac mae'n cynnwys hanes yr achos o gyfnod sefydlu'r Eglwys Sinc ym 1879 i'r cyfnod presennol.



Mae copïau o'r llyfryn ar werth am £3 gan Dr Myrtle Parker, Ger-y-Plas (01970 832449) myrtle@talybont1.freemove.co.uk neu Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri (01970 832 483).

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth



NFU Mutual

INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

We do right by you

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 111982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

YSGOL SUL BETHEL

Ddydd Mercher, Rhagfyr 16eg, cafodd nifer o blant ac ieuencid yr ysgol sul eu ffilmio gan griw Wedi 7, yn esgus canu am galennig yn Llety'r Bugail. Fe welwyd yr eitem (siomedig o fyr!) ar Wedi 7 ar nos Calan.

Noswyl y Nadolig, perfformiwyd fersiwn fywiog o stori'r geni yn ein gwasanaeth Nadolig. Bu ymarfer brwd cyn y noson fawr, ac roedd yn amlwg fod y gynulleidfa'n mwynhau ac yn gwerthfawrogi eu perfformiad diffuant.

Yna, fore dydd Calan, aeth 26 o aelodau a ffrindiau'r Ysgol Sul o amgylch y pentre i ganu am galennig. Wedi paratoi ar gyfer y rhaglen deledu yn gynharach yn y mis, roedd safon y canu yn ardderchog! Mae'n amlwg fod y sain wedi plesio'r pentrefwyr gan i ni gasglu £200 at achosion da. Diolch i chi bobl Tal-y-bont am eich haelioni a blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau am 11.15 ar Rhagfyr 11eg. Croeso cynnes i blant newydd.

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Yn ystod y tymor rydym wedi gwneud llawer iawn o waith ar stori Taliesin. Dyma ymdrech Zoë Forster-Brown i ysgrifennu barddoniaeth yn seiliedig ar y chwedl.

Y Cysgod Yng Ngolau'r Llusern

Ar noson ddu yng nghanol Rhagfyr

Mae rhywun yn aros, aros,

Aros am yr union amser

Pan fydd y gloch yn canu.

Yn sydyn, dyna'r gloch yn canu

A'r nos yn troi yn ddydd

Person yn neidio

Yn chwilio am y cynhwysydd cudd.

Mas o'r drws bychan

I lawr y stryd garegog

I mewn i'r goedwig

A lan y bryn du.

Y person yn plygu

Ei chlogyn felfed yn lapio'r croen

Llaw lwyd yn datgelu, yn dal llusern aur,

A'i rhoi i orwedd ar y dail.

Wedyn wrth gerdded lan y llwybyr

A'r cysgodion yn dawnsio ar y coed

Mae'r llaw yn dod mas a phigo un neu ddau

O flodau hardda a welwyd erioed

Oddi wrth ddiogelwch y pridd.

Mae hi'n rhoi nhw mewn basged

Codi'r hen fantell aur

Wedyn cerdded yn ôl y stryd garegog

A dringo nôl drwy'r drws bychan

Eistedd lawr ac ebychu,

Noson arall o waith drosto ... tan yfory!

Zoë

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Cyngerdd Nadolig



Ar y 10fed o Ragfyr fe wnaeth disgyblion Ysgol Gymunedol Tal-y-Bont gynnal gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Bethel y pentref.

I ddechrau'r gwasanaeth chwaraeodd Bryn Dennis (blwyddyn 6) y trwmped ac wedyn fe wnaeth y band pres ymuno gydag ef i chwarae carol. Yna chwaraeodd grŵp recorders blwyddyn 5 a 6 ddau ddarn a wedyn aeth y côr i'r llwyfan i ganu Haleliwia (fersiwn Cymraeg grŵp Brygyn) i gyfeiliant fflwrtiau a recorders. Yn nesaf ar y llwyfan oedd yr ensemble offerynol yn cynnwys fflwrtiau a thelynnau. Hefyd, chwaraeodd grŵpiau recorders blwyddyn 3 a 4. I orffen aeth y côr rhieni i ganu carol hyfryd.



Wedyn dechreuom ni action stori geni Iesu Grist. Fe ddarllenodd Isha Howard ddarn i ddechrau ac aeth plant y Dosbarth Derbyn a rhai o Flwyddyn 1 i actio fel asynnod. Roedd gynulleidfa wedi hoffi'r olygfa yma'n fawr iawn. Eden Jones oedd Mair a Ben Jones-Hughes oedd Joseff.

Angylion oedd yn yr olygfa nesaf a wedyn daeth y lletywyr, y bugeiliad ac fe gafwyd y neges bwysig gan y tri angel gwyllt. Wedyn aeth blwyddyn 3 a 4 i actio eu golygfa nhw cyn bod y doethion yn cyrraedd o'r Dwyrain pell. Cafwyd darlleniadau gan Catrin, Seren Taylor, Zo, Betsan a Caitlin. Gorffennodd y gwasanaeth gyda'r bugeiliaid a'r doethion yn cyrraedd y preseb a gweld Mair a Joseff.

Gobeithio bod pawb wedi mwynhau gwranddo a gwyllo'r gyngerdd Nadolig. Diolch i bawb wnaeth ein helpu a gobeithio y dewch chi y flwyddyn nesaf eto i wyllo ein panto Nadolig yn 2010!

Gan Catrin Huws a Seren Taylor

Bethan yn ennill fflachlamp

Yn ystod gwanwyn 2009, fe gawsom ni'r syniad o ddringo mynyddoedd uchaf Cymru i helpu pobl sydd ddim mor ffodus â ni, trwy codi arian i dair elusen enwog sef: Ty Hafan, Barnardos Cymru ac Ambiwylans Awyr Cymru. Nawr yn y mis hwn, wedi gorffen dringo'r mynyddoedd a chasglu'r arian igyd, rydym wedi rhoi gwobr arbennig iawn i'r person oedd wedi casglu'r mwyaf i ni o'r ysgol. Y wobwr oedd 'Multi LED Headtorch' a roddwyd gan siop Millets yn Aberystwyth a'r enillydd oedd Betsan Elenid Siencyn. Da iawn Betsan a diolch yn fawr iawn i bawb am ein helpu i godi'r arian.

Gan Ella Grug Evans ac Zoë Anna Forster Brown.



Siwan, Joel, Bryn ac Ella yn cael gwobrau am goresi'r ffordd yn ddiogel gan Angharad Evans, sy'n rheoli'r traffig tu allan i'r ysgol.

Gwranddo ar Gerddorfa a Chôr

Ar y 15fed o Ragfyr, aeth plant Cyfnod Allweddol 2 i weld cyngerdd gan gerddorfa a chôr ieuencyd y sir yn Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth.

Yn gyntaf, perfformiodd y gerddorfa 2 ddarn o gerddoriaeth, yn oedd darn o Lord of the Rings. Roedd sawl rhan i'r gerddorfa yn cynnwys gwahanol offerynnau. Yn yr adran llinynnau roedd ffidil, fiola, celo, a bas dwbl. Yn yr adran chwythbrennau roedd yna fflwrt, clarinet, obo a baswn. Yn yr adran pres roedd corn Ffrangig, trambôn, trwmped a tuba. Arweinydd y gerddorfa oedd Mr Alun Phillips, ac mae Mr Phillips yn dod i ddysgu yn ein ysgol ni hefyd. Fy hoff ran oedd pan wnaethon nhw chwarae Lord of the Rings.

Yna gwelsom ni'r ddau gôr. Y côr bechgyn oedd gyntaf a'r côr bechgyn a merched oedd ail. Yn y côr bechgyn roedd na 3 gwahanol llais, tenor, bas, a soprano. Yn y côr bechgyn a merched roedd 4 llais, tenor, bas, soprano ac alto. Fy hoff ran oedd pan wnaethon nhw ganu "We are the Champions"!

Mwynheuais i yn fawr iawn a byddwn yn hoffi gweld e eto achos dwi'n hoffi canu'n fawr iawn.

Ben Jones-Hughes

TEYRNGEDAU

Cecil George Phillips (1914-2009)

Gyda marw fy nghyfaill hoff Cis Phillips ar 15 Rhagfyr 2009 collwyd yr hynaf o hen blant Tre'r-ddôl ac Ysgol Llangynfelyn. Er iddo fyw yn Bow-Street am fwy na thrigain mlynedd roedd ei filltir sgwâr yn dal yn bwysig iddo. Wedi i Gwenda a minnau ddychwelyd i Dregerddan yn gymdogion i Cis a Maud doedd dim yn well ganddo na dod gyda mi i'r hen gynefin. Dysgais lawer yn ei gwmmi am yr hen drigolion megis teulu lluosog Beechey a dotiais at ei gof rhyfeddol. Roedd Cis yn 6 oed pan symudodd ei frawd John Anthony ag yntau o Ysgol Rhydpennau (byw yn Llanfihangel Genau'r Glyn am gyfnod) i Ysgol Llangynfelyn yn Nhachwedd 1920 a'r teulu'n ymsefydlu yn y tŷ agosaf i afon Cletwr, 'Bridge End House' gyferbyn â thafarn enwog 'Half-Way'. Yr ochr arall i'r afon roedd Stryd y Felin a chofiai Cis fy nhad-cu William Richards a'i deulu yn dod yno ym 1925 a chofio cerdded i'r ysgol yng nghwmni Mam ac Anti Martha. Y tro olaf y buom yn rhodio'r hen lwybrau soniodd am tad-cu yn codi tatws yng nghae bach y Felin.

Cofiai Cis fi yn fabi yn y pram ac wrth ddiolch imi pan bregethwn yn Noddfa roedd yn falch fod y babi wedi datblygu'n bregethwr! Doedd fawr o ffordd gan Cis, John Anthony a Merfyn i Soar a soniodd am ei ddyled i Ysgol Sul ac oedfaon y Capel Wesle a gwasanaethau Eglwys Llangynfelyn. Gweinidog Soar, John Henry Griffiths, Gwilym Parry y Ficer ac O.T.Evans, Bow-Street, a wasanaethodd yn angladd Edmund Anthony tad Cis ym mynwent yr Eglwys – lle arall y dysgais cryn dipyn gan Cis. Roedd tad Cis wedi dod i'r ardal o Lanidloes yn 30 oed ac wedi ymarfer ei grefft o ladd moch yn y fro am ddegawdau. Byddem yn ei ddilyn o fferm i fferm er mwyn cael y bledren i'w defnyddio'n ffwtbol. Roedd ganddo ladd-dy yn ymyl ei gartref lle byddai'n gofalu am ddiagon o gig i'r bwtsiwr Lewis Oliver Williams, tad-cu Billie Evans a'r chwiorydd Kathleen ac Ann, Tal-y-bont.

Byddai Cis yn mynd i fferm Dôlcletwr i weithio yn ifanc ac wedi gadael ysgol ym 1928 symudodd i Bow-Street gan weithio ym Maenuwch, Nantsiriol a Ffosygrafel, cyn treulio chwarter canrif cyn ymddeol yn Nhachwedd 1979, yn gweithio ar ffyrdd yr ardal. Ar ôl priodi Maud yn Noddfa ym Medi 1946 buont yn byw ym Mlaen-ddôl cyn symud i 8 Tregerddan ym 1952 i fagu Alun, Dilwyn a Gwynant, yn fuan wedi i ni fudo yno o Daliesin. Am ymron drigain mlynedd cawsom y ddeuddyn annwyl (fel y cymdogion eraill) yn gyfeillion triw, parod eu cymwynas yn enwedig adeg salwch Mam a Nhad.

Fel yn Nhre'r-ddôl bu Cis yng nghwmni Maud yn eithriadol o ffyddlon i bopeth yn Noddfa, heb anghofio'r Garn, Cartref Tregerddan, Bore Coffi Afallen Deg, y cae pêl-droed, a phob gweithgarwch yn y Neuadd a'r pentref. Byddwn hefyd yn cofio am y garddwr diwyd a rannodd ei gynnyrch gyda'i gymdogion. Dylai cofio am ei deyrngarwch ddeffro awydd ym mhawb ohonom i ddyblu diwydrwydd gyda phopeth o werth yn ein cymunedau. Wrth ddiolch i'r Creawdwr am un mor nobl â Cis, ac wrth feddwl am ei lafur ar y ffermydd a'r ffyrdd mae'n briodol cloi gydag englyn nodedig Alun Cilie:

Yr Hewlwr

Un â'i rym yn ei gryman, – yn cadw'r ffyrdd,
Codi'r ffos heb loetran,
A thrwy ei oes gwaith yw ei ran,
Gŵr wyth awr gwerth ei arian.

W.J.Edwards

David Rowland Jones (1926-2009)

Trist yw cofnodi marwolaeth un o gyn-drigolion Bont-goch, sef Mr David Rowland Jones, 23 Glanrafon Terrace, Aberystwyth. Bu hefyd yn byw yn Nhan-y-bryn, Maes Seilo, Penrhyn-coch.

Ganed David John Rowlands ar 21 Awst 1926 ym Mryn y Fedwen Fawr, Cwm Tynant yn fab i John Jones a'i briod Blodwen. Symudodd y teulu yn ddiweddar i Lety'r Felin ac yna i Leri Cottage, Bont-goch. Fe'i addysgwyd yn Ysgol Elerch gan gychwyn ei astudiaethau ym mis Gorffennaf 1931. Treuliodd gyfnod byr yn Ysgol Trefeurig yn 1934 gan ddychwelyd eilwaith i Ysgol Elerch, cyn ennill lle yn Ysgol Ramadeg Ardwyn.

Bu'n dal nifer o swyddi yn cynnwys gweithio ar y tir yn Llety Ifanhen a Chwmbwa, a helpu i adeiladu cronfa ddwr Nant-y-moch, morglawdd Y Borth ag Ysbyty Gyffredinol Bronglais. Ym mis Mai 1971 fe'i penodwyd yn borthor yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac yno y gweithiodd am dros

ugain mlynedd hyd at ei ymddeoliad ar ddiwedd Awst 1991.

Priododd â Mary Josephine McKenna (1925-1995) a mawr bu ei ofal drosti. Ganed tri o blant iddynt sef Kevin, Elizabeth, a Lilian, ac estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf â'r teulu cyfan sydd hefyd yn cynnwys saith o wyrion a chwech o orwyrion. Bu'r rhai a gafodd y fraint o gyd-weithio gyda 'Dei Rolant' yn ei gofio fel gŵr annwyl, cydwybodol a diwylliedig. Roedd hefyd yn hoff o chwaraeon – yn gefnogwr brwd o dim pêl-droed Aberystwyth ac yn is-lywydd y Clwb Athletau Lleol.

Bu'n ofynnol iddo dreulio ei flynyddoedd olaf yng nghartref Plas Cwmcynfelin lle derbyniodd y gofal gorau gan y staff. Bu farw ar 1 Rhagfyr a chynhaliwyd ei wasanaeth angladdol yn Amlosgfa Aberystwyth ar 11 Rhagfyr 2009 dan ofal Y Parchg Judith Morris, Penrhyn-coch. Coffa da amdano.

R.E.H.

Mrs Joy Fox (1925-2009)

Trist yw cofnodi marwolaeth y wraig hoffus Mrs Joy Fox, Carregydifor, Bont-goch ar 10 Rhagfyr yn 84 oed. Bu Mrs Fox yn wraig weddw ers 1983, a bu ei gŵr, y diweddar Basil Fox, yn gyfrifol am gynllunio a gosod gerddi Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, gwaith a ddechreuodd yn dilyn ei benodiad i'r staff yn 1960. Yn enedigol o Wlad yr Haf (*Somerset*), roedd Joy Fox fel ei gŵr yn barchus iawn o'r amgylchedd ac yn mwynhau a gwerthfawrogi gogoniant y byd natur. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Dewi Sant (URC), Aberystwyth ar 17 Rhagfyr dan ofal ei gweinidog Y Parch. Adrian P. Williams gyda'r Parch. J. E. Wynne Davies, ei chyn-weinidog a chyfaill da i'r teulu yn cynorthwyo. Roedd Joy yn aelod ffyddlon iawn o'r capel, ac roedd ei charedigrwydd tuag at ei chyd-aelodau, yn enwedig myfyrwyr y Brifysgol, yn wybyddus i bawb. Estynnir ein cydymdeimlad diffuant iawn â'i phlant Sam, Andrew, Rosemary a Kate a'u teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth.

PWYLLGOR Y NEUADD YN DATHLU

David James Thomas (1938-2009)

Collodd Bont-goch un o'i chymeriadau anwylaf ychydig ddyddiau cyn y Nadolig pan fu farw Mr David James Thomas, neu *Dei Bont-goch* i'w ffrindiau. Bu farw yn Ysbyty Gyffredinol Bronglais ar 22 Rhagfyr yn 71 oed. Ganed Dei yn Nhanllidiart, Bont-goch ar 4 Tachwedd 1938, a'i fedyddio yn Eglwys St. Pedr, Bont-goch. Treuliodd ei holl oes yn Nhanllidiart, ag eithrio'r cyfnod byr pan orfodwyd iddo adael yn dilyn tân difrifol ar 28 Gorffennaf 2008 a ddinistriodd ei gartref yn llwyr. Bu Bont-goch yn wag iawn hebdo yn ystod y cyfnod y gwelwyd ail-adeiladu'r ty, a phan ddychwelodd ymhen llai na blwyddyn roedd pawb yn falch iawn i'w groesawu adref. Ond roedd hi'n amlwg fod y tân wedi gadael ei ôl arno, ac wedi effeithio ar ei iechyd.

Cychwynodd Dei yn Ysgol Elerch ar 8 Chwefror 1943, cyn symud i Ysgol Uwchradd Dinas, Aberystwyth ym mis Medi 1950, ac ar ôl gadael yno bu'n gweithio ar y tir yng Ngharregydifor ac yn Llety Ifan hen, cyn derbyn swydd fel gyrrwr tractor ar staff Bridfa Blanhigion Cymru ym Mhlas Gogerddan.

Gweithiodd yno am 34 mlynedd gan dderbyn medal am hir-wasanaeth.

Ond gŵr ei filltir sgwar yn bennaf oedd Dei, ac roedd ganddo stor werthfawr iawn o wybodaeth lafar am ei hanes, traddodiadau a'i theuloedd, ac roedd ei wreiddiau yntau yn ardal Nant-y-moch: yn Nôlrhuddlan, Ffosfudr, a Nant-y-moch ei hunan, a chyn hynny yn ardal Cwmystwyth. Roedd yn wir wladwr ac yn hyddysg iawn ym myd natur ac amaethyddiaeth.

Ni fydd Bont-goch yr un fath hebdo, a byddwn fel pentrefwyr i gyd yn gweld ei eisiau, boed yn hen gydnabod, neu yn newydd-ddyfodiaid. Roedd Dei yn ffrind i bawb yn ddi-wahân, ac ni fydd y rhai a gafodd y pleser o'i adnabod byth yn anghofio ei ffraethineb naturiol. Coffa da am gyfaill a chymydog annwyl iawn. Wrth i Bapur Pawb fynd i'r wasg cyhoeddwyd y byddai'r angladd yn cael ei chynnal yn Amlogsgfa Aberystwyth ar Ddydd Mercher, 6 Ionawr.

Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf â'i chwaer Doris a'r teulu yn eu colled.

R.E.H.

Lansio Llyfr Menna Medi

Fe ddychwelodd yr awdures Menna Medi i Dal-y-bont ddechrau Rhagfyr i lansio'i nofel newydd *Hogan Horni-Isio Mwy* (Gwasg Gomer). Bydd llawer o ddarlennwyr Papur Pawb yn cofio Menna yn byw yma am gyfnod gan ddod yn weithgar gyda sawl mudiad lleol yn enwedig cwmni drama Licyris Olsorts. Yn wreiddiol o Lanuwchllyn mae Menna erbyn hyn yn byw yn y Groeslon ger Caernarfon ac yn gweithio fel ymchwilydd i'r cyfryngau.

Mae'r nofel newydd yn ddilyniant i'r nofel *Hogan Horni*. Dychwelwn at anturiaethau'r newyddiadurwraig dinboeth Tina Thomas a'i ffrindiau, Ann a Gwenan, ynghyd â llu o gymeriadau cofiadwy fel Bryn y Boncyn a Marie y Ddraig. Nofel ysgafn, hwyliog, tafod-yn-y-boch.

Daeth nifer o deulu a chyfeillion ynghyd i'r Llew Du i lansio'r nofel a chafwyd darlenniadau gogleisiol ar y noson a llawer o chwerthin iach, yn enwedig wrth wrando ar Alun Jenkins yn cyflwyno cyfarchiad ar ffurf adroddiad digri.



Mae'n draddodiad bellach i Bwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa gynnal parti bach ar achlysur y cyfarfod olaf cyn y Nadolig, ac eleni, diolch i garedigrwydd Myfanwy James a Glenys Edwards trefnwyd dathliad arbennig i gyfarch Mrs Valma Jones i ddiolch iddi am ei llafur diflino ar ran y Neuadd dros nifer fawr o flynyddoedd. Manteisiwyd ar y cyfle i'w llongyfarch hefyd ar gyrraedd pen-blwydd arbennig iawn.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Mid Wales Self Storage Centre

- STORIWC'H E' • RHOWCH DAN GLO •
- CADWC'H Y GORIAD •



STORFA
GARTREF

- DIOGELWC'H
BT REDCARE
24 AWR



STORFA FUSNES

- CCTV



STORFA I
FYFYRWYR

- WEDI'I GYNHESU
- CIWBICLAU £10 yr
wythnos (250
ciwb)



PACEDU

- ARCHIFAU

01654 703592

Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

Chwaraeon

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy e-bost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

Tal-y-bont dros 30 v Talybont dan 30



Ar brynhawn Llun 28 Rhagfyr daeth grŵp o gyn chwaraewyr Tal-y-bont ac ifanc i chwarae gêm bêl-droed cyfeillgar, gem cyffrous iawn ar tîm dros 30 yn dangos i'r bois ifanc bod y gallu a'r sgiliau'n dal yno. Y sgôr terfynol oedd 3-2 i Tal-y-bont dros 30. Roedd torf dda wedi troi allan i gefnogi, codwyd arian ar gyfer Geraint Howard i fynd i Ysbyty Great Ormond Street, Llundain. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Diolch Daniel

Llongyfarchiadau a diolch o galon i Daniel Bassett, y golffiwr ifanc addawol o Gae'r gog, Bont-goch, am ei ymdrechion llwyddiannus iawn yn ddiweddar i godi arian tuag at Ward Plant Ysbyty Gyffredinol Bronglais. Yn dilyn marathon golffio llwyddodd Daniel i godi'r swm anhygoel o £2000 a gyflwynwyd i'r Elusen Clefyd Siwgr Plant. Chwaraeodd bedair rownd mewn diwrnod, camp oedd yn golygu cerdded dros 15 milltir.



Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Canlyniad BLE YN Y BYD?

Enillydd Rhagfyr oedd Gwen Manley, Swyn y Leri, Tal-y-bont... a'r ateb - yn ffenest Y Fferyllfa, Tal-y-bont.

Bugail Ola'
Ucheldir Pumlumon

Dwy noson ddifyr yn dilyn ôl-troed y diweddar Edgar Humphreys ar DVD yng nghwmni Gwilym Jenkins

20 Ionawr a 3 Chwefror
Neuadd Goffa Tal-y-bont am 7.30

Tâl Mynediad:
£3 (lleiafswm) y noson
Elw at Sioe'r Cardis 2010

Ble yn y byd?

Sut i chwarae

Ble yn nhaltgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad

Cod Post

RFF Ffôn

Atebion: I Geraint Evans, Gamwen, Tal-y-bont erbyn 5ed o Chwefror.

Gwobr: Tocyn Llyfr £10

I'r ateb eywlr cyntaf allan o'r het.

